**ATODIAD 2**

# CANLYNIADAU YMGYNGHORIAD GORCHMYNION RHEOLI CŴN 2024

**Ymgynghoriad Cyhoeddus:**

Fel rhan o'r bwriad i ymestyn y gorchymyn cyfredol, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cefnogi a chyfiawnhau parhad o'r pwerau rheoli cŵn, sy'n cynnwys rheoli baw cŵn, gwaharddiadau a chŵn ar dennyn o dan gyfarwyddyd.

Roedd yr ymgynghoriad yn fyw ar wefan y Cyngor am gyfnod o bythefnos o'r 22/07/24 dan y 05/08/24. Rhannwyd datganiadau ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn ogystal â datganiad i'r wasg er mwyn sicrhau bod ystod eang o bobl yn ymwybodol o'r cyfle i rannu eu barn.


Anfonwyd neges yn uniongyrchol i glercod Cynghorau Cymuned, aelodau o'r Heddlu, adrannau eraill o'r Cyngor ac amryw o fudiadau sy'n ymwneud a materion Rheoli Cŵn fyddai'n cael eu heffeithio gan y penderfyniad o ymestyn y gorchymyn.


Rhannwyd holiaduron papur i'r rhai oedd yn methu ymateb ar-lein.

**Prif faterion â amlygwyd:**

Weler grynodeb o brif ganlyniadau'r ymgynghoriad isod.

Nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad – **1171**






**Gwrthwynebwyr:**

O’r 231 roedd yn gwrthwynebu roedd 51 (o’r rheiny bu ychwanegu sylwadau) wedi cyfeirio yn benodol at draethau fel y prif reswm am wrthwynebu. Mae canran yn gwrthwynebu yn debyg iawn i’r ymgynghoriad yn 2021.

**Traeth “Marine” Criccieth:**

Roedd y Gwasanaeth Morwrol wedi adrodd bod nifer o drigolion ac ymwelwyr Criccieth yn cwyno am ddiffyg lle i fynd a chŵn oherwydd parth gwahardd ar hyd y ddau draeth - Promenâd a “Marine”. Ar sail hyn cafodd y parth gwahardd Traeth “Marine” ei dileu yn 2021.

Yn 2024 bu 13 yn gwrthwynebu i’r ymestyniad ar y sail eu bod eisiau gweld y Cyngor yn ail-sefydlu parth gwahardd ar draeth “Marine”.

**Kennel Club a Dog’s Trust:**

Roedd yr ymatebion gan y ddau grŵp arbenigol, sy’n cynrychioli perchnogion cŵn, yn gefnogol i’r nod o ymestyn hyd y gorchymyn presennol.

**Casgliadau:**

Roedd mwyafrif clir o’r ymatebion a ddaeth i law drwy’r holiadur yn gefnogol o gynnwys y gorchymyn fel ag y mae, h.y. seiliedig ar y farn bod y drefn gyfredol yn un teg. Roedd hyn yn adlewyrchu dyheadau'r cyhoedd yn gyffredinol i weld y mannau cyhoeddus yn rhydd o faw ci a hefyd yn ystyried anghenion y sawl sydd angen ymarfer eu cŵn. Nid oedd consensws o blaid ehangu sgôp y gorchymyn i gynnwys rheolau ychwanegol.

Argymhellir felly bod y meini prawf o dan Adran 59 o Ddeddf 2014 wedi eu cyrraedd ac ein bod yn bwrw mlaen i gymeradwyo GDMC yn unol â’r Gorchymyn Arfaethedig.